Archaeoleg ar eich stepen drws

# Darnau Arian Drwy'r Blynyddoedd

Mae darnau arian yn bodoli i wneud cyfnewid nwyddau a gwasanaethau yn haws. Mae darnau arian yn ganfyddiadau archeolegol cyffredin ar draws Cymru, ond tan 1968 dim ond yn achlysurol y byddai arian yn cael ei fathu yma.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws neu ar Twitter @SF_Archaeology

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

national museum wales
amgueddfa cymru

012



## Oes yr Haearn

Ysbrydolwyd darnau arian y Brydain hynafol gan ddarnau arian a fathwyd gan lwythi Galaidd, a oedd eu hunain yn seiliedig ar *stater* aur yr Hen Roeg.

Yn aml mae ceffyl arddulliedig ar y cefn (y gynffon).

Nid oedd llwythi Cymreig yn bathu eu darnau arian eu hunain ond weithiau caiff darnau arian eu cymdogion yn Lloegr eu canfod yng Nghymru.

Bydd darnau arian y Brydain hynafol fel arfer yn aur neu arian, ond weithiau yn aloi copr.

## Rhufeinig

Mae'n hawdd adnabod darnau arian Rhufeinig o'u portreadau realistig.

Mae ochr arall y darnau arian yn amrywiol, fel arfer yn dangos duwiau, digwyddiadau a phersonoliadau. Gallant fod yn aur, arian neu aloi copr.

*Denarii* arian sydd fwyaf cyffredin, o ddwy ganrif gyntaf teyrnasiad Rhufain.

Roedd *radiates* a *nummi* aloi copr yn gyffredin iawn yn y 3edd a'r 4edd ganrif fel ei gilydd.

## Canoloesol

Dechreuodd darnau arian canoloesol gael eu bathu yn Lloegr yn y 7fed ganrif.

Maen nhw fel arfer yn cael eu hadnabod o'r groes ar y cefn a theneuwch y metel. Mae'r blaen (y pen) fel arfer yn dangos dehongliad arddulliedig iawn o'r Brenin.

Seiliwyd y system ariannol ganoloesol ar y geiniog arian – roedd pob darn arall yn lluosrif neu'n ffracsiwn o'r geiniog arian. Aur fyddai darnau o werth uwch, ac maen nhw'n brin iawn.

## Ôl-ganoloesol

Ers teyrnasiad Harri VII mae darnau arian wedi dangos portread realistig o'r brenin ar y blaen. Roedd y cefn yn aml yn dangos tarian, ac yn ddiweddarach Britannia. Mae marciau'n dynodi'r gwerth a'r flwyddyn gynhyrchu.

Ers 1662, caiff darnau arian eu melino – maen nhw'n cael eu creu gan beiriant, yn hollol grwn gydag ymylon addurnedig er mwyn atal clipio a ffugio.

Arian ac aur yw darnau fel arfer, ond yn yr 17eg ganrif cynrychiolai tocynnau aloi copr werthoedd is.

## Cyfoes

Yn y 19fed ganrif roedd arian yn seiliedig ar y *sofran* aur. Daeth cylchrediad darnau arian aur i ben ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Dechreuwyd defnyddio ciwpro-nicl yn lle arian ym 1947.

Cyn dyfod arian degol ym 1971, symudodd y Royal Mint o Fryn y Tŵr yn Llundain i Lantrisant, ger Caerdydd, lle caiff holl ddarnau arian Prydain eu bathu bellach.

Mae gan y bunt newydd nodweddion diogelwch fel hologram wedi eu mewnosod.